Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Aberteifi
Park Place
Aberteifi
Ceredigion
SA43 1AD

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/03/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Uwchradd Aberteifi yn ysgol naturiol ddwyieithog i ddisgyblion rhwng 11 ac 18 mlwydd oed a gynhelir gan awdurdod lleol Ceredigion. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn nhref arfordirol Aberteifi ac mae'n derbyn disgyblion o ddalgylch eang gwledig. Mae 528 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 101 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth.

Mae 19.5% o ddisgyblion yn gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.5% Mae 25.5% o ddisgyblion yr ysgol yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae gan yr ysgol uned addysg arbennig,' Canolfan Seren Teifi' ar gyfer 10 disgybl, saith disgybl llawn amser a tri sydd yn derbyn rhan o'u haddysg yn y brif ffrwd. Mae'r awdurdod lleol yn gofalu am bump disgybl.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion ar draws yr ystod gallu. Mae 40% o'r ddisgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol, gyda 2.8% o ddisgyblion ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigyrau hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Daw 35% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Fodd bynnag, mae 52% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol. Mae 16 disgybl yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Ionawr 2012. Mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y pennaeth, pennaeth cynorthwyol a phennaeth cynorthwyol dros dro.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Aberteifi yn 2014-2015 yw £5,199. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Ceredigion yw £7,160 a'r lleiafswm yw £4,379. Mae Ysgol Uwchradd Aberteifi yn y trydydd safle o'r chwech ysgol uwchradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

**Perfformiad presennol**

Mae'r nodweddion cadarn ym mherfformiad presennol yr ysgol yn cynnwys:

- Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad mewn mathemateg yn gyson uwch nag mewn ysgolion tebyg eraill
- Mae cyfraddau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn gyson yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim yn ystod y pedair blynedd diwethaf
- Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn rhagorol
- Mae'r addysgu yn effeithiol mewn llawer o wersi
- Mae'r gwaith marcio ac adborth i ddisgyblion o safon gyson uchel
- Mae'r cynllunio i ddatblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion yn gynhwysfawr

Fodd bynnag, bernir mai digonol yw perfformiad presennol oherwydd:

- Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad o ran y dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi gosod yr ysgol yn yr hanner isaf o ysgolion tebyg yn ôl meincnodau prydau ysgol am ddim am y tair blynedd diwethaf
- Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion mewn Saesneg neu Gymraeg wedi dirywio ac mae'n is na pherfformiad ysgolion tebyg
- Mae lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig bechgyn, yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig sy'n rhy fyr, mae diffyg dyfnder ynddo, ac mae'n cynnwys gormod o gamgymeriadau sillafu, gramadeg ac atalnodi

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Mae'r pennaeth wedi creu ethos o ddisgwyliadau uchel ac atebolrwydd, sy'n treiddio drwy'r ysgol gyfan
- Mae prosesau rheoli perfformiad yn gadarn ac yn canolbwyntio ar feysydd allweddol i'w gwella
- Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau a meysydd i'w gwella
- Mae gan yr ysgol systemau hunanarfarnu cynhwysfawr
- Mae cynlluniau gwella'r ysgol yn cynnwys blaenoriaethau clir ar gyfer gwella, targedau mesuradwy, cyfrifoldebau a ddyrennir yn briodol a chamau gweithredu addas i fynd i'r afael â thanberfformiad

## Argymhellion

A1 Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4 mewn Saesneg a Chymraeg

A2 Gwella ansawdd a chywirdeb gwaith ysgrifenedig bechgyn

A3 Sicrhau bod pob athro yn gwneud defnydd effeithiol o gwestiynau i archwilio ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion

A4 Sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn briodol i sylwadau yng ngwaith marcio athrawon

A5 Sicrhau bod pob pennaeth cyfadran yn gwneud defnydd effeithiol o ganfyddiadau adolygiadau adrannol wrth gynllunio ar gyfer gwella

A6 Cael gwared ar y diffyg yn y gyllideb

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Uwchradd Aberteifi yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yng nghyfnod allweddol 4, ers 2011, mae perfformiad o ran y dangosydd sy'n cynnwys 5 TGAU â graddau A*-C yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi bod gerllaw deilliannau wedi'u modelu, ond islaw perfformiad ysgolion tebyg eraill yn gyffredinol. Mae perfformiad o ran dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau wedi gwella, ac am y ddwy flynedd diwethaf mae wedi bod uwchlaw perfformiad ysgolion tebyg eraill. At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau, a chynnydd boddhaol yn y dangosydd sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4. Mae perfformiad mewn mathemateg yn gyson uwch na pherfformiad mewn ysgolion tebyg eraill. Fodd bynnag, mae perfformiad disgyblion mewn Saesneg neu Gymraeg wedi bod yn is na pherfformiad mewn ysgolion tebyg eraill dros y tair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 4, er 2011, o ran dangosyddion sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn fwy na'r bwlch mewn ysgolion tebyg eraill. At ei gilydd, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd addas.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad o ran y dangosydd sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd wedi gwella, ac yn y ddwy flynedd diwethaf, mae'n uwch na pherfformiad mewn ysgolion tebyg eraill.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad yr ysgol ar drothwy lefel 3 ac o ran y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog, yn gyson uwch na'r cyfartaleddau ar gyfer yr awdurdod lleol a Chymru.

Mewn gwersi, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith. Yn y rhan fwyaf o wersi, maent yn gwrando'n astud ac mae tua hanner y disgyblion yn cynnig ymatebion rhesymedig ac estynedig i gwestiynau athrawon. Fodd bynnag, mae diffyg hyder gan leiafrif ohonynt pan fyddant yn ymateb ar lafar, a chynigiant atebion byr sydd heb eu datblygu'n ddigonol. Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau a'u gwybodaeth bynciol. Yn y gwersi hyn, mae mwyafrif yn gweithio'n dda yn unigol ac mewn grwpiau bach. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif yn cyfrannu'n ddigon da at weithgareddau grŵp, ac o ganlyniad, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd. Mewn ychydig iawn o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth fanwl o sut i arfarnu'u cynnydd a datblygu'u medrau.

Mae disgyblion yn ysgrifennu darnau gwaith estynedig ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd a dibenion yn y rhan fwyaf o bynciau. Mae llawer o ddisgyblion sy'n astudio eu pynciau drwy'r Gymraeg yn ysgrifennu'n glir, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o reolau gramadegol a phriod-ddull. Fodd bynnag, mae ychydig ohonynt yn defnyddio gormod o eiriau Saesneg wrth

ysgrifennu yn Gymraeg ac maent yn gwneud camgymeriadau gramadegol a sillafu mynych. Wrth ysgrifennu yn Saesneg, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o eirfa gyffredinol, eang a geirfa sy'n benodol i bwnc. Mae dealltwriaeth dda o sillafu, atalnodi a gramadeg gan fwyafrif o ddisgyblion. Llwydda ychydig o ddisgyblion i gyfleu eu syniadau yn dda iawn gan ddefnyddio geirfa eang a soffistigedig. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig bechgyn, yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig sy'n rhy fyr, â diffyg dyfnder ynddo, ac yn cynnwys gormod o gamgymeriadau sillafu, gramadeg ac atalnodi. Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu darllen a gallant dynnu a defnyddio gwybodaeth berthnasol o destunau. Mae disgyblion sydd ag anawsterau penodol yn darllen yn gwneud cynnydd da mewn grwpiau ymyrraeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda iawn mewn ystod o bynciau, er enghraifft, wrth gyfrifo dwysedd poblogaeth mewn daearyddiaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn fedrus yn gwneud rhifyddeg pen ac yn deall sut i drosi mesuriadau rhwng unedau gwahanol. Gall llawer ohonynt lunio amrywiaeth o graffiau a siartiau gwahanol i ddangos data'n effeithiol. Hefyd, mae mwyafrif o'r disgyblion hyn yn gallu cymhwyso'u gwybodaeth bynciol yn dda i wneud dehongliadau a llunio casgliadau priodol o batrymau mewn data. Mae hyn yn gryfder arbennig yn yr ysgol.

## Lles: Rhagorol

Mae cyfranogiad disgyblion mewn gwneud penderfyniadau yn nodwedd gadarn iawn. Trwy gyngor yr ysgol, mae disgyblion wedi cael cryn ddylanwad ar faterion fel gwella ansawdd marcio ac adborth, mireinio polisïau gwrth-fwlio, lleihau achosion o fwlio a gwella ansawdd y wisg ysgol. Maent hefyd yn cyfrannu'n effeithiol iawn at benderfyniadau ynglŷn ag amgylchedd a chyfleusterau'r ysgol, er enghraifft datblygu'r gampfa newydd a'r rhaglen helaeth o glybiau a gweithgareddau.

Mae ymddygiad disgyblion yn rhagorol ac mae gan bron pob un ohonynt agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Ni fu unrhyw waharddiadau cyfnod penodol yn ystod y 18 mis diwethaf, ac ni fu gwaharddiad parhaol ers tair blynedd. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu'n dda iawn â chyfartaleddau lleol a chenedlaethol a dangosant welliant sylweddol ers cynnal yr arolygiad diwethaf.

Mae presenoldeb disgyblion yn rhagorol. Mae cyfraddau presenoldeb dros y pedair blynedd diwethaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, ac uwchlaw deilliannau wedi'u modelu. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, ac mae'n gyson ymhell uwchlaw cyfraddau presenoldeb grŵp tebyg o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg ac yn genedlaethol. Mae hon yn nodwedd gadarn iawn.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a theimla'r rhan fwyaf fod yr ysgol yn delio'n dda iawn â'r ychydig o achosion o fwlio sy'n codi. Mae disgyblion y chweched dosbarth sydd wedi'u hyfforddi fel 'cyfeillachwyr cyfoedion' yn cynnig cymorth gwerthfawr a chefnogol i ddisgyblion iau yn ystod yr awr ginio. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol diddorol ac mae ganddynt ddealltwriaeth drwyadl o sut i gadw'n ffit a chynnal ffordd iach o fyw. Mae cyfranogiad gan gyfran uchel o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymwneud â gwaith elusennol helaeth ac yn codi symiau mawr o arian at elusennau lleol a chenedlaethol. Mae’r ysgol yn paratoi’r disgyblion yn dda iawn ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu bywydau. Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd da iawn gan bob disgybl bron.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm cytbwys sy’n bodloni gofynion statudol. Yng nghyfnod allweddol 4, ceir ystod eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol sy’n darparu profiadau perthnasol a diddorol i ddisgyblion. Cynigir cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion astudio cymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol a’r cyfnod ôl-16. Mae’r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr i ddisgyblion mwy abl a thalentog mewn gwyddoniaeth, mathemateg a thechnoleg dylunio, ac un enghraifft o’r ddarpariaeth hon yw’r clwb peirianneg ‘Teigrod Aberteifi’. Mae’r ddarpariaeth ddiddorol ac arloesol hon yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion mwy abl mewn gwyddoniaeth a mathemateg. Mae’r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a theithiau addysgol i ddisgyblion er mwyn cyfoethogi profiadau academaidd a diwylliannol.

Cynllunia’r ysgol yn effeithiol i fodloni gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. O ganlyniad, ceir ystod o weithgareddau wedi’u dyfeisio’n dda ar draws y cwricwlwm sy’n datblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion yn gynyddol. Mae’r ysgol yn gweithio’n agos iawn â’i hysgolion cynradd partner i ddatblygu strategaethau i sicrhau trosglwyddo hwylus ac i rannu arfer orau wrth ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae’r ysgol wedi cynnig hyfforddiant gwerthfawr ac adnoddau o ansawdd uchel i rieni i’w helpu i gynorthwyo’u plant wrth ddatblygu’u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae strategaethau cynhwysfawr gan yr ysgol i nodi disgyblion sydd â medrau llythrennedd a rhifedd gwan. Caiff y strategaethau hyn effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion penodol.

Mae’r ysgol yn cynllunio’n dda i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith Gymraeg. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol a chynaledig yn y gyfran o ddisgyblion sy’n astudio pynciau heblaw am Cymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg. Trefnir gweithgareddau allgyrsiol gan yr ysgol sy’n darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddefnyddio’u medrau Cymraeg mewn lleoliad cymdeithasol anffurfiol, fel Clwb yr Urdd ac Eisteddfod yr ysgol.

Mae’r ddarpariaeth o ran addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gryfder. Mae hyn wedi’i sefydlu’n dda ar draws y cwricwlwm, a thrwy weithgareddau allgyrsiol. Cynigia’r gweithgareddau hyn ddealltwriaeth glir i ddisgyblion o’i berthnasedd yn ei bywydau. Mae’r cyngor eco wedi cychwyn mentrau llwyddiannus i gynyddu ailgylchu a lleihau’r defnydd o ddŵr ac ynni.

**Addysgu: Da**

Mae gwybodaeth bynciol gynhwysfawr a diweddar gan bob athro bron, ac maent yn fodelau iaith da. Ym mhob un o’r gwersi bron, mae athrawon yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chynhyrchiol gyda disgyblion.

Mewn llawer o wersi, mae disgwyliadau uchel o ddisgyblion gan athrawon, a chynlluniant dasgau heriol a difyr i ennyn eu diddordeb yn dda. Mae'r gwersi hyn yn cynnwys gweithgareddau cychwynnol ysgogol a chyfnodau rhesymegol pendant. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn frwdfrydig ynglŷn â'u pwnc ac yn sicrhau rhediad bywiog. Mae tua hanner yr athrawon yn dewis ac yn paratoi adnoddau yn ofalus i ymestyn disgyblion mwy abl, ac mae llawer ohonynt yn cynllunio'n dda i gynorthwyo'r rheini ag anghenion dysgu penodol. Mae llawer o athrawon yn defnyddio'u gallu i gyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg yn dda i gefnogi a datblygu medrau dwyieithog disgyblion. Mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn defnyddio cwestiynau agored yn fedrus i wirio dealltwriaeth disgyblion, a defnyddiant gwestiynau ategol i sicrhau eu bod yn datblygu ac yn ymestyn eu hymatebion. Mewn ychydig iawn o wersi, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau heriol iawn i annog disgyblion i feddwl yn ddwys ynglŷn â'u pwnc.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn defnyddio cwestiynau'n ddigon da i brofi ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion. Nid yw athrawon yn cydweddu gwaith yn ddigon da â galluoedd disgyblion mewn lleiafrif o wersi, ac mae rhediad y wers yn araf. Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw athrawon yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u syniadau eu hunain a datrys problemau drostynt eu hunain.

Mae ansawdd a chysondeb adborth i ddisgyblion yn un o gryfderau'r ysgol. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn rhoi adborth llafar rheolaidd i ddisgyblion i helpu datblygu'u dealltwriaeth neu gywiro camsyniadau. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio tasgau cyfoedion a thasgau hunanasesu defnyddiol. Mae bron pob un o'r athrawon yn marcio llyfrau'n rheolaidd, ac mae llawer ohonynt yn ysgrifennu sylwadau manwl a defnyddiol gyda chyngor clir ar sut i wella. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif sy'n sicrhau bod disgyblion yn gweithredu'n briodol ar y cyngor hwn. Mae system effeithiol ar waith gan yr ysgol i olrhain cynnydd disgyblion ac i nodi tangyflawniad mewn modd amserol. Defnyddir gwybodaeth o'r system hon yn dda gan y rhan fwyaf o staff i ddarparu ymyrraeth a chymorth targedig i ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am gynnydd a lles eu plant mewn nosweithiau rhieni, yn ogystal ag mewn adroddiadau interim a diwedd blwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys targedau defnyddiol ar gyfer gwella a chyfleoedd priodol i rieni a disgyblion ymateb.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae darpariaeth yr ysgol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yr ysgol yn gynhwysfawr ac effeithiol. Ceir polisi a gweithdrefnau gwrth-fwlio clir yn yr ysgol sy'n cyfrannu'n dda at sicrhau amgylchedd gofalgar lle mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth buddiol i ddisgyblion beth bynnag yw eu gallu a'u hanghenion unigol. Mae tîm bugeiliol cadarn yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol. Mae'r ysgol wedi datblygu darpariaeth fuddiol drwy gyfleusterau 'Hafan' a 'Space' i gefnogi anghenion emosiynol ac ymddygiadol disgyblion sy'n fwy agored i niwed. Mae'r ddarpariaeth eang hon wedi arwain at welliannau sylweddol ym mhresenoldeb, cyflawniad ac agwedd disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhagweithiol wrth ddelio â materion yn ymwneud â phresenoldeb ac ymddygiad, ac mae'n ymdrechu i atal problemau rhag gwaethygu. Mae system gadarn ac effeithiol gan yr ysgol i fonitro presenoldeb. Mae arweinwyr bugeiliol a chynhwysiant wedi datblygu cysylltiadau agos â rhieni i gynorthwyo cyfathrebu ac ymateb yn gyflym i unrhyw faterion sy'n codi. Mae polisi ymddygiad yr ysgol yn gynhwysfawr a chaiff ei gymhwyso'n fedrus ac yn sensitif gan y rhan fwyaf o athrawon.

Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau gwerthfawr i ddisgyblion. Hefyd, gwna'r ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Caiff cyngor gwerthfawr ei roi i ddisgyblion ar yrfaoedd a dewisiadau, ac mae hyn yn eu cefnogi'n dda ar adegau trosglwyddo allweddol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr ac yn effeithio'n gadarnhaol ar eu cynnydd. Mae cynlluniau addysg unigol yn briodol ac yn cynnwys targedau perthnasol a thargedau hawdd i'r disgybl eu deall i gynorthwyo gwelliant. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfrannu at eu cynlluniau addysg unigol eu hunain. Gweithia'r ysgol yn agos â rhieni i sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn yn cefnogi cynnydd eu plentyn.

Ceir darpariaeth effeithiol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol, sy'n cynnwys y canolfan 'Seren Teifi'. Mae disgyblion yn y ganolfan hyn yn dilyn cwricwla unigol ac yn cael cymorth buddiol iawn. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Uwchradd Aberteifi yn gymuned gynhwysol ag ynddi ethos cefnogol a gofalgar iawn. Mae diwylliant cadarn o ddathlu amrywiaeth yn yr ysgol. Caiff pob un o'r disgyblion, beth bynnag yw eu hanghenion a'u cefndiroedd, eu hannog i lwyddo yn unol ag arwyddair yr ysgol 'Bydd pob disgybl yn llwyddo'. Mae'r ysgol yn sicrhau y gall pob disgybl gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd dysgu neu daith ysgol. Bydd staff a disgyblion yn herio unrhyw achosion o stereoteipio yn gadarn, ac o ganlyniad mae disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Ceir nifer o arddangosfeydd lliwgar a deniadol o waith disgyblion mewn ystafelloedd dosbarth ac yn y coridorau. Mae hyn yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau o ansawdd uchel sy'n cefnogi dysgu disgyblion yn dda, ac mae hyn yn cynnwys campfa newydd ag ynddi ddigon o gyfarpar. Mae llyfrgell â stoc dda yn yr ysgol, ynghyd ag offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu helaeth.

O ystyried oed yr adeilad, mae'r ysgol wedi'i chynnal a'i chadw'n dda iawn, ac mae'n lân ac yn daclus. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newydd yn addas i'r diben ac mae safle'r ysgol yn ddiogel.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Ers ei phenodi yn Ionawr 2012, mae'r pennaeth wedi cael effaith arwyddocaol ar wella safonau, darpariaeth ac agweddau ar arweinyddiaeth. Mae'n cyfleu gweledigaeth glir a ddeellir yn dda ynglŷn â gwella'r ysgol i staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. Mae'n gosod disgwyliadau uchel iddi hi ei hun ac mae'n disgwyl i staff a disgyblion fabwysiadu'r un gwerthoedd. Mae dealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau gan bron pob un o'r staff. Rhoddir ffocws cadarn ar godi safonau mewn meysydd sy'n tanberfformio, yn ogystal ag ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth lle mae safonau neu ddarpariaeth eisoes yn dda. Mae ethos o ddisgwyliadau uchel ac atebolrwydd yn treiddio drwy'r ysgol.

Mae prosesau rheoli perfformiad yn gadarn ac mae amcanion yn canolbwyntio'n briodol ar feysydd allweddol i'w gwella.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth effeithiol gan y corff llywodraethol, wedi herio tanberfformiad yn gadarn. O ganlyniad, gwnaed newidiadau staff sylweddol mewn meysydd allweddol ers yr arolygiad diwethaf.

Mae calendr o gyfarfodydd pwrpasol gan yr ysgol. Mae'r tîm arweinyddiaeth estynedig, sy'n cynnwys yr wyth pennaeth cyfadran, yn cyfarfod bob pythefnos, a chaiff gwybodaeth o'r cyfarfodydd hyn ei rhannu'n gyflym ac effeithiol gydag aelodau staff eraill. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar wella cyfathrebu ac ar sicrhau cysondeb o ran cymhwyso polisïau ysgol gyfan. Fodd bynnag, nid yw cyfarfodydd ffurfiol rhwng rheolwyr llinell ac arweinwyr cyfadrannau yn y meysydd sy'n peri'r pryder mwyaf yn cael eu cynnal yn ddigon aml.

Mae gan lawer o arweinwyr ddealltwriaeth dda o ddata perfformiad a chyflawnant eu rolau yn dda. Mae ychydig o arweinwyr sy'n newydd yn eu rôl yn datblygu ystod briodol o fedrau arwain ond maent yn dibynnu ar gymorth ac arweiniad gan y pennaeth gydag agweddau ar eu gwaith, fel dadansoddi data a hunanarfarnu.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn effeithiol ac yn frwdfrydig i fodloni ystod eang o flaenoriaethau cenedlaethol. Mae ansawdd y gwaith i gryfhau darpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd wedi bod yn uchel iawn, yn enwedig cynllunio i wella rhifedd ar draws y cwricwlwm. Hefyd, mae'r ysgol wedi bod yn ystyriol wrth gynllunio i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad a datblygu dwyieithrwydd disgyblion. Mae defnydd creadigol o adnoddau a chyflwyno ystod eang o fentrau wedi cael effaith gadarn ar bresenoldeb disgyblion a'u cyflawniad mewn mathemateg, gwyddoniaeth a dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau.

Mae'r corff llywodraethol yn rhoi cryn bwyslais ar ymgymryd â'i rôl fel ffrind beirniadol. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau a meysydd i'w gwella. Maent wedi herio arweinwyr a staff yn gadarn i wneud gwelliannau mewn llawer o feysydd allweddol. Mae strwythur addas o bwyllgorau gan y corff llywodraethol i sicrhau bod materion pwysig fel perfformiad pynciau craidd ac addysgu yn cael sylw priodol a'u trafod yn fanwl. Bob tymor, mae'r

pennaeth yn darparu adroddiad manwl i gynorthwyo trafod. Mae llywodraethwyr yn mynychu cyfarfodydd cyfadran yn rheolaidd mewn meysydd lle mae'r pryder mwyaf, a darparant her a chymorth buddiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan yn fanwl ac yn rhoi adolygiad trwyadl o bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mewn ychydig o leoedd, mae'r sylwebaeth yn rhy ddisgrifiadol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, ceir cydweddu agos rhwng yr arfarniadau yn yr adroddiad a chanlyniadau'r arolygiad hwn.

Un o gryfderau proses hunanarfarnu'r ysgol yw'r ystod o dystiolaeth a gesglir ac ansawdd y dadansoddi. Mae'r rhaglen eilflwydd o adolygiadau cyfadrannol yn agwedd allweddol ar y broses hon. Mae'r adolygiadau hyn yn heriol, yn gadarn ac o ansawdd uchel. Mae arweinwyr yn arfarnu safonau, addysgu, asesu ac arweinyddiaeth yn dda, ac maent yn ysgrifennu adroddiad crynodol manwl yn ogystal â darparu ystod ddefnyddiol o argymhellion i gynorthwyo gwelliant yn y dyfodol. Er mai ond ers deunaw mis y bu'r rhaglen yn rhedeg, mae eisoes wedi arwain at welliannau sylweddol yn safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth dau faes cyfadran.

Mae calendr cynhwysfawr o weithgareddau monitro gan yr ysgol, a bydd yr holl arweinwyr yn ymgymryd â'r rhain i ategu'r rhaglen adolygiadau cyfadrannol. Mae hyn yn cynnwys arsylwadau o wersi ac ystod eang o weithgareddau i graffu ar agweddau amrywiol ar waith disgyblion. Mae arsylwadau o wersi a chraffu ar waith disgyblion gan uwch arweinwyr yn arfarnol, yn gynhwysfawr a thrwyadl. Fodd bynnag, mae ansawdd y gweithgareddau y bydd yr arweinwyr cyfadrannau yn ymgymryd â nhw yn fwy amrywiol. Mewn lleiafrif o achosion, mae arfarniadau o wersi a llyfrau disgyblion yn ddisgrifiadol ac nid ydynt yn darparu digon o wybodaeth am yr agweddau penodol y mae angen eu gwella. Mae cyfraniad rheolaidd disgyblion, rhieni a llywodraethwyr at hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn gryfder. Mae'r ysgol yn cynnal arolygon defnyddiol ac amserol o farnau rhieni a disgyblion.

Mae adroddiadau hunanarfarnu cyfadrannau yn gadarn a cheir cyswllt addas rhwng cynnwys yr adroddiadau hunanarfarnu a'u blaenoriaethau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr cyfadrannau yn gwneud digon o ddefnydd o ganlyniadau'r adolygiadau cyfadrannau i arfarnu eu perfformiad eu hunain, yn enwedig mewn perthynas â chynnydd disgyblion mewn gwersi, datblygiad medrau disgyblion ac ansawdd yr addysgu. Mewn ychydig o achosion, nid yw blaenoriaethau a gynhwyswyd mewn cynlluniau gwella cyfadrannau yn amlwg yn yr adroddiadau hunanarfarnu.

Ar lefel ysgol gyfan, ceir cyswllt priodol rhwng hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae blaenoriaethau ar gyfer gwella yn glir yn gyffredinol, gellir mesur y targedau, caiff cyfrifoldebau eu dyrannu'n briodol a cheir camau gweithredu addas i fynd i'r afael â meysydd tanberfformiad. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi seilio ei chynllun gwella ar bob agwedd ar y fframwaith arolygu cyffredin. O ganlyniad, mae'r cynllun yn cynnwys gormod o fân feysydd i'w gwella ac nid yw'r rhai pwysicaf yn ddigon amlwg.

Mae cynllunio trwyadl yr ysgol wedi arwain at welliannau sylweddol yn ansawdd yr addysgu, perfformiad uchel cynaledig mewn mathemateg, a gwelliannau sylweddol o ran trothwy lefel 2 a'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio. Fodd bynnag, nid yw mentrau i fynd i'r afael â pherfformiad Saesneg a Chymraeg wedi cael amser i effeithio ar ddeilliannau yng nghyfnod allweddol 4.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaeth agored a gwerthfawr gyda rhieni. Ceir cyfathrebu effeithiol iawn. Caiff rhieni wybodaeth ddefnyddiol a rheolaidd am yr ysgol drwy gylchlythyrau a gwefan yr ysgol.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth strategol gynhyrchiol gyda sefydliadau addysgol eraill yn yr ardal, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer y cyrsiau sydd ar gael yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Ceir trefniadau priodol yn yr ysgol i fonitro ansawdd cyrsiau ac addysgu ar safleoedd eraill, ac i sicrhau bod trefniadau yn gost-effeithiol.

Mae partneriaeth fuddiol rhwng yr ysgol a'i hysgolion cynradd partner sy'n arwain at drosglwyddo effeithiol iawn. Mae disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn elwa ar ystod o gyfleoedd gwerthfawr i ymweld â'r ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol. Mae trefniadau ar gyfer cymedroli asesiadau athrawon ar y cyd yn y pynciau craidd wedi arwain at fwy o ddealltwriaeth gyffredin o'r meini prawf asesu yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth agos â'r gymuned leol ac mae hon wedi'i chryfhau'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Mae arian a godir yn ystod mentrau ar y cyd yn cyfrannu'n rhagorol at wella profiadau disgyblion, er enghraifft trawsnewid campfa'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda iawn gydag ystod o bartneriaid i gefnogi disgyblion dan anfantais. Mae hyn wedi cael cryn effaith, er enghraifft ar les disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn dda ac mae wedi'i staffio'n briodol. Gwna arweinwyr ddefnydd effeithiol o arbenigedd a phrofiad athrawon wrth ddyrannu staff i ddosbarthiadau. Mae staff cymorth yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at lawer o agweddau ar fywyd yr ysgol.

Mae'r pennaeth, a swyddogion cyllid yr Awdurdod Lleol yn rheoli a monitro materion ariannol yr ysgol yn fanwl. Gyda chymorth yr awdurdod lleol, mae'r ysgol yn gweithio'n dda iawn i fynd i'r afael â'r diffyg yn ei chyllideb erbyn Ebrill 2015. Mae darpariaeth y chweched dosbarth yn gost-effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd helaeth i bob un o'r staff ddatblygu'n broffesiynol. Mae diwylliant o gydweithredu yn datblygu'n dda ac mae staff yn rhannu arfer dda yn rheolaidd mewn meysydd pwysig fel asesu, addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau. Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithgorau buddiol ac mae'r rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau rhifedd a llythrennedd ar draws y cwricwlwm, yn

ogystal â chryfhau'r rhaglen bontio. Yn ogystal, mae nifer o athrawon yn chwarae rhan flaenllaw mewn rhwydweithiau proffesiynol ar draws yr awdurdod lleol, er enghraifft i gefnogi gwella safonau llythrennedd a rhifedd. Mae'r ysgol yn darparu cymorth a hyfforddiant gwerthfawr i staff newydd a'r rheini sy'n dysgu y tu allan i'w meysydd arbenigedd.

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'r grant amddifadedd disgyblion. Mae arweinwyr yn greadigol yn eu defnydd o gyllid, er enghraifft wrth ddarparu gwisg ysgol ac offer i ddisgyblion. Mae'r penderfyniadau hyn wedi cael effaith sylweddol ar wella presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u perfformiad ar drothwy lefel 2.

Ar sail perfformiad presennol, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 4, ers 2011, mae canlyniadau'r yr ysgol yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi gwella ychydig. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn gyson agos at ddeilliannau wedi'u modelu ac yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf. Yn 2011, fe wnaeth perfformiad yn y dangosydd hwn osod yr ysgol yn yr hanner uwch yn ôl prydau ysgol am ddim; ers hynny, mae perfformiad wedi bod yn yr hanner is yn ôl prydau ysgol am ddim.

Ers 2011, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi aros yn gymharol sefydlog ac mae'n uwch na chyfartaledd y teulu mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf. Yn 2011, fe wnaeth perfformiad yn y dangosydd hwn osod yr ysgol yn yr hanner uchaf yn ôl prydau ysgol am ddim. Yn 2012 a 2013, fe wnaeth perfformiad yn y dangosydd hwn osod yr ysgol yn yr hanner uwch yn ôl prydau ysgol am ddim. Yn 2014, mae perfformiad yn gosod yr ysgol yn yr hanner is yn ôl prydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf neu'r hanner uwch yn ôl prydau ysgol ac mae islaw cyfartaledd y teulu am ddim mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi gwella ac, yn 2014, yn gosod yr ysgol yn yr hanner meincnod uwch ac uwchlaw cyfartaledd y teulu am y tro cyntaf. Mae perfformiad yn y sgôr bwyntiau gyfartalog ehangach wedi'i chapio wedi cynyddu ac mae'n uwch na chyfartaledd y teulu am y tro cyntaf yn 2014. Mae'r perfformiad hwn yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf neu'r hanner uwch o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Ers 2011, mae perfformiad mewn Cymraeg iaith gyntaf ar lefel 2 wedi dirywio'n sylweddol. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn gosod yr ysgol yn yr hanner is neu'r chwarter isaf ac mae'n gyson is na chyfartaledd y teulu ac eithrio yn 2011.

Mae perfformiad mewn lefel 2 Saesneg wedi dirywio ers 2011 ac mae'n gyson is na chyfartaleddau'r teulu. Yn 2011, fe wnaeth perfformiad yn y dangosydd hwn osod yn yr hanner uwch yn ôl prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag yn y tair blynedd ers hynny, mae perfformiad ymhlith yr hanner is neu'r chwarter isaf o ysgolion tebyg. Ers 2011, mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 2 wedi amrywio ac mae'n gyson uwch na'r teulu. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad wedi bod yn yr hanner uwch neu'r chwarter uchaf o ysgolion tebyg. Ers 2011, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi amrywio ac yn is na chyfartaledd y teulu. Yn 2011 a 2012, roedd perfformiad yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg; fodd bynnag, yn 2013 a 2014, mae perfformiad yn gosod yr ysgol ymhlith y grŵp meincnod isaf.

Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn y dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymhwysterau, a chynnydd da yn y dangosydd lefel 2 yn cynnwys Cymraeg, Saesneg a mathemateg.

Dim ond ychydig iawn o ddisgyblion sydd wedi gadael yr ysgol yn y tair blynedd diwethaf heb gymhwyster.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r bwlch rhwng berfformiad y bechgyn a'r merched yn ehangach nag ydyw o gymharu â'r teulu yn y lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd. Mae hyn yn bennaf oherwydd perfformiad cymharol gwan y bechgyn mewn Saesneg a Chymraeg iaith gyntaf. Fodd bynnag, yn y dangosydd lefel 2, y dangosydd lefel 1 a'r sgôr pwyntiau gyfartalog wedi'i chapio, nid yw'r bylchau hyn mor fawr a rhai cyffelyb y teulu.

Yn gyffredinol, nid yw disgyblion sydd â'r hawl i brydau am ddim yn perfformio cystal ag ydynt mewn ysgolion tebyg eraill yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion allweddol.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd wedi gwella yn y pedair blynedd diwethaf ac yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf. Mae'r perfformiad hwn yn gosod yr ysgol yn chwarter uchaf neu'r hanner uwch o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Ers 2011, mae perfformiad mewn Cymraeg ar lefel 5 neu'n uwch yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella ac yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf. Mae'r perfformiad hwn yn gosod yr ysgol yn yr hanner is neu'r chwarter isaf o ran prydau ysgol am ddim mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 5 neu'n uwch yn is na chyfartaledd y teulu mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf . Mae'r perfformiad hwn yn y chwarter isaf neu'r hanner is yn ôl prydau ysgol am ddim mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf ond yn 2013, yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf. Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 5 neu'n uwch yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ac yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 5 neu'n uwch yn is na chyfartaledd y teulu ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner is neu'r chwarter isaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn Saesneg yn gyson is na chyfartaledd y teulu. Mewn Cymraeg, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch yn well na'r teulu mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 6 neu'n uwch yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu. Mewn gwyddoniaeth, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch yn is na chyfartaledd y teulu mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf .

Mae'r bwlch rhwng cyflawniad y bechgyn a'r merched yn y dangosydd pwnc craidd yn gyson yn ehangach na bwlch cyfartalog y teulu.

Mae perfformiad y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau am ddim yn y dangosydd pwnc craidd wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf ond mae'n is na chyfartaledd y teulu mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf.

Yn y chweched dosbarth, mae canlyniadau'r ysgol yn gyson uwch na ffigyrau'r awdurdod lleol a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru cyfan. Eleni, fe wnaeth 90% o'r disgyblion yn y chweched dosbarth lwyddo i ennill cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno’n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno’n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 134 | 92 | 41 | 1 | 0 | Rwy’n teimlo’n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 69% | 31% | 1% | 0% | |
| | | 43% | 53% | 4% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 134 | 54 | 69 | 10 | 1 | Mae’r ysgol yn delio’n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 40% | 51% | 7% | 1% | |
| | | 26% | 58% | 14% | 3% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 134 | 68 | 61 | 5 | 0 | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i’n poeni. |
| | | 51% | 46% | 4% | 0% | |
| | | 38% | 52% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 134 | 35 | 74 | 24 | 1 | Mae’r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 26% | 55% | 18% | 1% | |
| | | 23% | 57% | 18% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 133 | 75 | 55 | 3 | 0 | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 56% | 41% | 2% | 0% | |
| | | 45% | 45% | 9% | 2% | |
| I am doing well at school | 134 | 56 | 70 | 7 | 1 | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 42% | 52% | 5% | 1% | |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 132 | 70 | 58 | 4 | 0 | Mae’r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 53% | 44% | 3% | 0% | |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 134 | 40 | 75 | 18 | 1 | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 30% | 56% | 13% | 1% | |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 133 | 78 | 53 | 2 | 0 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 59% | 40% | 2% | 0% | |
| | | 45% | 47% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 134 | 18 | 78 | 30 | 8 | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy’n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 13% | 58% | 22% | 6% | |
| | | 10% | 57% | 27% | 6% | |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 134 | 46 | 69 | 17 | 2 | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 34% | 51% | 13% | 1% | |
| | | 28% | 51% | 17% | 4% | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 133 | 35<br>26% | 69<br>52% | 25<br>19% | 4<br>3% | Mae'r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu. |
| | | 16% | 54% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 134 | 57<br>43% | 71<br>53% | 6<br>4% | 0<br>0% | Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 34% | 60% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 104 | 35<br>34% | 68<br>65% | 1<br>1% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 35% | 54% | 9% | 1% | |
| The staff respect me and my background | 134 | 62<br>46% | 62<br>46% | 10<br>7% | 0<br>0% | Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir. |
| | | 37% | 54% | 7% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 130 | 60<br>46% | 61<br>47% | 9<br>7% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 36% | 56% | 7% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 48 | 15<br>31% | 26<br>54% | 6<br>12% | 1<br>2% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 28% | 52% | 16% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 30 | 10<br>33% | 18<br>60% | 1<br>3% | 1<br>3% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 27% | 50% | 16% | 7% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 217 | 106<br>49% | 100<br>46% | 7<br>3% | 1<br>0% | 3 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 43% | 50% | 4% | 1% | | |
| My child likes this school. | 216 | 114<br>53% | 90<br>42% | 7<br>3% | 2<br>1% | 3 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 217 | 123<br>57% | 78<br>36% | 11<br>5% | 1<br>0% | 4 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 50% | 45% | 3% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 217 | 120<br>55% | 86<br>40% | 8<br>4% | 1<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 45% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 216 | 59<br>27% | 115<br>53% | 19<br>9% | 6<br>3% | 17 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 22% | 54% | 11% | 3% | | |
| Teaching is good. | 213 | 91<br>43% | 108<br>51% | 6<br>3% | 3<br>1% | 5 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 33% | 57% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 217 | 133<br>61% | 78<br>36% | 3<br>1% | 0<br>0% | 3 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 50% | 45% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 217 | 89<br>41% | 103<br>47% | 16<br>7% | 1<br>0% | 8 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 31% | 53% | 8% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 217 | 85<br>39% | 88<br>41% | 26<br>12% | 7<br>3% | 11 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 32% | 48% | 9% | 2% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 217 | 80<br>37% | 112<br>52% | 14<br>6% | 3<br>1% | 8 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 33% | 53% | 7% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 217 | 115<br>53% | 94<br>43% | 4<br>2% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 41% | 52% | 3% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 206 | 92<br>45% | 85<br>41% | 9<br>4% | 4<br>2% | 16 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 32% | 46% | 7% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 217 | 88 | 101 | 22 | 5 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 41% | 47% | 10% | 2% | | |
| | | 33% | 50% | 11% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 217 | 99 | 89 | 17 | 7 | 5 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 46% | 41% | 8% | 3% | | |
| | | 41% | 48% | 7% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 217 | 77 | 94 | 23 | 6 | 17 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 35% | 43% | 11% | 3% | | |
| | | 27% | 50% | 10% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 217 | 91 | 106 | 13 | 0 | 7 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 42% | 49% | 6% | 0% | | |
| | | 36% | 53% | 5% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 206 | 68 | 84 | 19 | 1 | 34 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 33% | 41% | 9% | 0% | | |
| | | 26% | 46% | 8% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 217 | 96 | 95 | 19 | 4 | 3 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 44% | 44% | 9% | 2% | | |
| | | 35% | 49% | 9% | 2% | | |
| The school is well run. | 217 | 106 | 87 | 10 | 4 | 10 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 49% | 40% | 5% | 2% | | |
| | | 40% | 48% | 5% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ceri Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Vaughan Williams | Arolygydd Tîm |
| Catherine Evans | Arolygydd Tîm |
| Gwen Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Delyth Gray | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhodri Thomas | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy’n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a’u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu’n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi’i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o’r holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â’u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys |

| | |
|---|---|
| | ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy’n byw yn 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy’n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |